# Cyngor Cymuned **Bryncrug** Community Council

## Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Lun 18fed o Fawrth 2024 am 7:00pm

Presennol: Cynghorydd Alan H. Jones (Cadeirydd)

Cynghorwyr: Geraint Evans, Richard Jones Evans, Arwel Pierce, Richard C Evans, Bethan Lawton

1. Ymddiheuriadau: Cynghorydd Geraint Edwards

2. Datgan diddordeb: Ni fu i'r un cynghorydd ddatgan buddiant

3. Cyflwyniad - Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - Cynllun Eryri:

Croesawyd Gwenno Jones ac Angela Jones i'r cyfarfod.

Darparwyd copïau caled o Gynllun Eryri, Cynllun Partneriaeth Parc Cenedlaethol Eryri 2020 sydd yn gynllun statudol yr awdurdod.

Adroddwyd y canlynol:
-Cynllun grantiau newydd ei agor, gyda'r dyddiad cau ym mis Mai 2024. Angen tri dyfynbris am eitem sydd dros £5,000 pan yn bosib. Bydd angen llythyrau cefnogi i gefnogi ceisiadau ac os yn bosib arian cyfatebol, unai gan y cyngor cymuned neu ffynhonnell arall, megis grant gan Gyngor Gwynedd. Swm arian cyfatebol disgwyliedig yw 5%.
-Cronfa Llesiant Cymunedol yn rhoi grantiau i fyny at £500
-Cynllun Caru Eryri yn chwilio am wirfoddolwyr (darparwyd poster i hyrwyddo'r cynllun)
Nodwyd y byddai crynodeb o hyn drafodwyd yn dilyn dros e-bost.

**PENDERFYNIAD:** I ddiolch i'r swyddogion ac i arddangos poster cynllun Caru Eryri ar yr hysbysfwrdd yn y pentref.

4. Derbyn cofnodion 19 Chwefror 2024:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y cofnodion fel rhai cywir.

5. Cais Ariannol - Clwb Ffermwyr Ifanc Meirionnydd:

Nodwyd bod y cyngor fel arfer yn rhoi rhodd o £50.

**PENDERFYNIAD:** I ofyn am fantolen ariannol.

6. Cais gan aelod o'r cyhoedd am ardd gymunedol yng nghae chwarae Bryncrug:

Yr oedd yr unigolyn wedi darparu poster ar gyfer Facebook.

Nodwyd bod grant £1,000 ar gael gan Eco Dyfi a £500 gan APCE.

**PENDERFYNIAD:** I ofyn i'r unigolyn geisio denu gwirfoddolwyr, gan egluro nad yw'n ymarferol i blannu ger y ffordd oherwydd bod carthffos a chebl trydan yno, a bod y cyngor yn dymuno gweld yr ardd unai yn yr ardd fach neu yn rhan uchaf o'r cae chwarae.
Y Clerc i gyflwyno cais am grant Biosffer Dyfi.

7. Zurich - yswiriant:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y polisi yswiriant.

8. Cyfrifon i'w talu:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Elusen Ambiwlans Awyr | Rhodd A137 | 101883 | £50.00 |
| Zurich Municipal | Yswiriant | 101884 | £962.47 |
| Tindle Newspapers | Hysbyseb swydd | 101885 | £118.80 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| B Gwilym | Cyflog | 101886 | £228.66 |
| Cyllid a Thollau EM | YG | 101887 | £57.00 |
| B Gwilym | Costau teithio | 101888 | £324.00 |
| Scottish Power | Trydan i'r Pafiliwn | 101889 | £241.89 |

**PENDERFYNIAD:** I dalu'r anfonebau uchod.

9. Datganiadau Cyfrifyddu 2021/2022:

**PENDERFYNIAD:** I gynnal cyfarfod rhithiol dros Zoom ar nos Wener, 22 Mawrth 2024 am 1900.

10. Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2021/2022:

**PENDERFYNIAD:** I gynnal cyfarfod rhithiol dros Zoom ar nos Wener, 22 Mawrth 2024 am 1900.

11. Datganiadau Cyfrifyddu 2022/2023:

**PENDERFYNIAD:** I gynnal cyfarfod rhithiol dros Zoom ar nos Wener, 22 Mawrth 2024 am 1900.

12. Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2022/2023:

**PENDERFYNIAD:** I gynnal cyfarfod rhithiol dros Zoom ar nos Wener, 22 Mawrth 2024 am 1900.

13. Cae Chwarae - Adroddiad:

Adroddwyd y canlynol:
-profion PAT wedi cael eu cynnal ar offer trydanol yn y Pafiliwn
-nid oedd llawer o'r goleuadau yn y Pafiliwn yn gweithio yn yr ystafelloedd newid
-eiddew yn tyfu o gyfeiriad Bronmeirion
-angen cadw llygaid ar bolion ffens
-shackles angen sylw ar yr offer chwarae

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.
I anfon e-bost at CPD Tywyn a Bryncrug gan nodi bod y cyngor wedi trafod anfonebau dyledus a gofyn i'r clwb dalu'r anfonebau fel mater o flaenoriaeth/brys.

14. Cae Chwarae – Dyfynbris i dorri gwair yn ystod tymor 2024:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn dyfynbris J.K.Jones Landscapers.

15. Adroddiad y Cynghorydd Sir:

Nid oedd materion i'w hadrodd.

Trafodwyd materion nad oedd ar yr agenda, sef cwyn am lanastr ger pwmp codi dŵr hanesyddol ger Ffordd y Felin a chyfweliadau ar gyfer swydd y Clerc.

Nodwyd bod y Cyng. Bethan Lawton yn ymdrin â chŵyn am y B4405 gyda'r Adran Priffyrdd.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.
I anfon llythyr yn cynnwys llun o'r llanastr sydd wedi ei adael wrth y pwmp codi dŵr hanesyddol ar Ffordd y Felin at y cymydog sydd yn byw gerllaw.
I gynnal cyfweliadau am swydd y Clerc wyneb yn wyneb yn y Ganolfan am 1900 ar 8 Ebrill 2024. Y cynghorwyr canlynol i eistedd ar y panel cyfweld: Alan H Jones, Geraint Evans, Richard Jones Evans a Richard C Evans. Nid oedd tasg i'w osod i'r ymgeisydd fel rhan o'r broses dethol.

Bu i'r cyfarfod ddirwyn i ben am 7:55pm

Llofnod y Cadeirydd ..........................................................